# Asesiad Strwythuredig 2024 – Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4644A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru..

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Tryloywder bwrdd, effeithiolrwydd a chydlyniant 7

Systemau sicrwydd corfforaethol 12

Dull corfforaethol o gynllunio 17

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 20

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 24

Atodiad 2 – Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol 26

Atodiad 3 – Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio 30

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig 2024 yr Archwilydd Cyffredinol yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Mae ein hadolygiad o ddull corfforaethol AaGIC o bennu amcanion llesiant newydd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei gynnal i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2024 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i gyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn ogystal, mae cyrff y GIG yn dal i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol AaGIC ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar y canlynol:

- tryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y bwrdd;
- systemau corfforaethol o sicrwydd;
- dull corfforaethol o gynllunio;
- dull corfforaethol o reoli ariannol.

Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol AaGIC fel rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi cael ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, sydd wedi'i ddatblygu a'i fireinio dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi'i lywio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arfer da perthnasol eraill

Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

Cynhaliwyd ein gwaith yn unol â'r safonau archwilio a osodwyd gan Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd AaGIC wrth fynd i'r afael ag argymhellion a oedd yn weddill a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

## Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **trefniadau llywodraethu, sicrwydd, cynllunio a rheolaeth ariannol yn parhau i fod yn gadarn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach, yn enwedig mewn perthynas â chlywed lleisiau myfyrwyr a hyfforddeion yn y Bwrdd a nodi ac arddangos budd ac effaith strategaethau a chynlluniau corfforaethol allweddol**.

7 Gwnaethom ystyried a yw AaGIC yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Canfuom fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gydlynol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau'r trefniadau ar gyfer clywed gan fyfyrwyr a hyfforddeion a sicrhau bod strwythur y pwyllgor yn parhau'n addas ar gyfer y dyfodol.

8 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Canfuom fod gan AaGIC ddull deinamig o reoli risg a threfniadau cadarn ar waith i oruchwylio argymhellion perfformiad a thracio argymhellion archwiliad. Mae trefniadau wedi'u datblygu'n dda hefyd i sicrhau bod addysg a gomisiynir o'r ansawdd priodol.

9 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawniad. Canfuom fod dull AaGIC o ddatblygu strategaeth a chynllunio yn gynhwysfawr a chynhwysol. Fodd bynnag, mae angen mwy o ffocws i weld a yw cynlluniau'n cyflawni eu canlyniadau a fwriadwyd.

10 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Canfuom fod dull da o reoli ariannol a sicrwydd yn parhau.

## Argymhellion

11 Mae **Arddangosyn 1** yn manylu ar yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith. Crynhoir ymateb AaGIC i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion 2024**

| **Argymhellion 2024** | |
|---|---|
| A1 | Dylai AaGIC gesio cynnwys eitem agenda reolaidd yn ei gyfarfodydd bwrdd ar 'straeon' myfyrwyr/hyfforddeion i helpu aelodau i ddeall profiad y dysgwr. (**Paragraff 37**) |
| A2 | Er y dyrennir risgiau strategol i bwyllgorau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, dylai AaGIC egluro rôl y 'pwyllgor sicrwydd' i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau. (**Paragraff 49**) |
| A3 | Dylai AaGIC sicrhau bod gan risgiau corfforaethol deitlau risg clir a chyson sy'n caniatáu i'r darllenydd nodi'n syth y risg sy'n cael ei chyflwyno iddo. (**Paragraff 55**) |
| A4 | Dylai AaGIC nodi a mynegi'n glir yr effaith a'r manteision y bwriedir i'r camau gweithredu eu cael, yn ei gynlluniau. (**Paragraff 81**) |

# Adroddiad manwl

## Tryloywder bwrdd, effeithiolrwydd a chydlyniant

12 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

13 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gydlynol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i gryfhau'r trefniadau ar gyfer clywed gan fyfyrwyr a hyfforddeion a sicrhau bod strwythur y pwyllgor yn parhau'n addas ar gyfer y dyfodol**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

14 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes bwrdd a phwyllgorau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau sy'n hygyrch i'r cyhoedd;
- papurau'r bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd;
- busnes a phroses gwneud penderfyniadau y bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn dryloyw.

15 Canfuom fod **AaGIC yn parhau i fod â threfniadau sy'n cefnogi tryloywder cyhoeddus priodol wrth gynnal ei fusnes bwrdd a phwyllgorau.**

16 Mae cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau yn parhau i fod ar gael ar-lein i'r cyhoedd. Gall aelodau'r cyhoedd naill ai fynychu cyfarfodydd ar-lein fel arsylwyr rhithwir neu wylio recordiadau ar-lein wedi hynny. Mae'r tudalennau perthnasol ar wefan AaGIC yn glir ac yn hygyrch, gydag agendâu a chofnodion heb eu cadarnhau wedi'u lanlwytho mewn modd amserol (**Gweler Atodiad 2 2022 Argymhelliad 1a**). Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd hanesyddol hefyd yn hygyrch. Fel y trafodwn ym **mharagraff 31**, mae uwch swyddogion yn gwirio ansawdd papurau ar gyfer y Bwrdd a'r pwyllgorau yn drylwyr cyn eu cyhoeddi.

17 Mae AaGIC yn ymdrechu i gynnal cymaint o'i fusnes mewn sesiwn agored â phosibl. Canfu ein harsylwadau mai dim ond nifer fach o eitemau y mae AaGIC yn eu cynnal mewn sesiwn gaeedig, ac mae cyfarfodydd yn cael eu cau yn unol â deddfwriaeth ac angen busnes. Mae adroddiad sy'n manylu ar y penderfyniadau allweddol a wnaed mewn cyfarfodydd caeedig yn ymddangos ar agendâu canlynol cyfarfodydd cyhoeddus, sy'n hyrwyddo tryloywder a bod yn agored.

## Trefniadau i gefnogi’r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd

19 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi’r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau yn effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth fod y canlynol yn ffurfiol, yn gyfoes ac ar gael i'r cyhoedd:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ar waith, sy'n nodi atebolrwydd yn glir;
- Rheolau Sefydlog (RhS) a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (CASau) ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a sicrhau uniondeb a phriodoldeb.

20 Canfuom fod **busnes y Bwrdd a Phwyllgorau yn parhau i gael ei gefnogi gan Reolau Sefydlog priodol a chyfredol, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, cynlluniau dirprwyo, a pholisïau a gweithdrefnau ar uniondeb a phriodoldeb**.

21 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd (AAC) yn parhau i adolygu Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog bob blwyddyn cyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Mae'r rhain ar gael i'r cyhoedd ar y wefan (**gweler Atodiad 2 2022 Argymhelliad 1b**). Wrth symud ymlaen, mae AaGIC yn bwriadu mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg o adolygu ei Weithdrefnau Rheoli Ariannol er mwyn sicrhau defnydd effeithlon o amser pwyllgor.

22 Mae polisïau sefydliadol yn cael eu diweddaru gan AaGIC ac yna'n cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae crynodeb o'r Gofrestr Datganiadau o Fuddiant hefyd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac mae ar gael i'r cyhoedd ar y wefan (**Gweler Atodiad 2 2022 Argymhelliad 1b**). Mae AaGIC wedi mynd gam ymhellach ac mae'n gofyn i'r aelodau hynny o'r Grŵp Deoniaid a Dirprwyon, deiliaid cyllideb, aelodau staff Gradd 8C neu uwch a'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau caffael wneud datganiadau blynyddol hefyd. Ym mis Mehefin 2024, datblygodd a chyhoeddodd AaGIC bolisi i sicrhau bod systemau ar waith i gynnal ac adolygu polisïau a phrotocolau (**gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 1**). Yn ogystal, ym mis Hydref 2024, roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cynnwys diweddariad ar y polisïau sydd wedi pasio eu dyddiad adolygu a'r dull ar gyfer eu hadolygu. Er bod 12 polisi i'w hadolygu, mae camau gweithredu wedi cael eu cymryd neu yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain (**Gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhellion 2 a 3**).

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

23 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol. Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd a phwyllgorau yn derbyn gwybodaeth amserol, o ansawdd uchel sy'n cefnogi craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o bapurau bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol/briodol o

wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwneud penderfyniadau, craffu a sicrwydd effeithiol.

24 Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig a gweithredol ar waith, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a phwyllgorau sy'n ymdrin â phob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau wedi'u cadeirio'n dda sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n arsylwi ar arferion cyfarfod a darparu cydbwysedd da o graffu, cefnogaeth a her;
- pwyllgorau yn derbyn ac yn gweithredu ar y sicrwydd gofynnol ac yn rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd.

25 Canfuom fod **cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cadeirio'n dda, eu cynnal yn iawn, gydag agendâu cytbwys, ac yn cael eu cefnogi gan bapurau o ansawdd da. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i ‘gadw golwg’ ar strwythur y pwyllgor wrth i'r sefydliad ddatblygu ac ymgorffori ei uchelgeisiau yn y dyfodol**.

26 Mae strwythur presennol y pwyllgor yn cyd-fynd yn briodol â chylch gwaith a nodau strategol y sefydliad, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn darparu goruchwyliaeth llywodraethu a'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd yn goruchwylio trefniadau ar gyfer comisiynu a darparu systemau addysg o ansawdd. Mae AaGIC yn adolygu cylch gorchwyl y pwyllgorau hyn yn flynyddol, y mae'n ei ddiweddaru lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, maent hefyd yn 'ddogfennau byw' sy'n cael eu haddasu'n barhaus i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau gofynnol.

27 Mae AaGIC yn myfyrio'n rheolaidd ar briodoldeb strwythur presennol y pwyllgor ac mae sgyrsiau'n digwydd am y ffordd orau o gadw golwg ar flaenoriaethau y sefydliad yn y dyfodol. Wrth i AaGIC ymgymryd â chynllunio strategol tymor hwy, bydd angen iddo ystyried a yw strwythur presennol y pwyllgor ac adnoddau cysylltiedig y tîm llywodraethu corfforaethol yn ddigonol i ddiwallu ei anghenion yn y dyfodol. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu gweithredol, gan sicrhau bod unrhyw newid yn gymesur i'r sefydliad.

28 Mae swyddogion yn adolygu agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a phwyllgorau i sicrhau bod agendâu a phapurau yn gytbwys ac yn canolbwyntio'n gywir ar feysydd 'strategol', 'gwneud penderfyniadau', a 'sicrwydd'. Er bod rhai eitemau ar agendâu y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd yn eitemau sefydlog, dywedwyd wrthym fod cynllun gwaith y pwyllgor yn ddigon hyblyg i ganiatáu i eitemau gael eu dwyn ymlaen neu lithro i gyfarfod diweddarach os oes angen. Dangoswyd hyn yn ddiweddar pan ychwanegwyd eitem bwysig ar fyr rybudd i'w drafod mewn sesiwn gaeedig. Derbyniodd yr eitem lefel sylweddol o graffu yn y cyfarfod, er nad oedd ar y flaenraglen waith.

29 Mae’r Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cadeirio’n dda, a hyrwyddir craffu effeithiol. Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd yn cadw at yr amser a bennwyd a glynir wrth brotocol cyfarfodydd, gyda Chadeiryddion yn annog aelodau i ofyn cwestiynau a herio mewn modd cwrtais ond dyfal. Mae Aelodau Annibynnol yn brofiadol ac yn defnyddio cymysgedd da o arddulliau a dulliau i ddarparu cydbwysedd priodol o gefnogaeth, craffu a herio.

30 Mae adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau yn amserol ac yn briodol. Mae Aelodau Annibynnol yn ddigon trylwyr, gan sicrhau eu bod yn cael y sicrwydd y gallai fod ei angen arnynt ar eitem. Fodd bynnag, un maes y dylid ei adolygu yw'r oruchwyliaeth gyfyngedig a allai ddigwydd pan fydd cyfarfodydd pwyllgor ar y lefelau isaf o gworwm. Dim ond dau Aelod Annibynnol sydd angen bod yn bresennol i gyfarfod fod yn gworwm (o leiaf y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd). Mae cylch gorchwyl y pwyllgor Taliadau Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth yn nodi bod pwyllgor angen tri aelod er mwyn iddo fod yn gworwm. Ar yr achlysuron hyn, mae angen i'r rhai sy'n bresennol weithio'n galetach i ddarparu lefel briodol o graffu a goruchwyliaeth.

31 Mae papurau’r Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi mewn modd amserol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn trafod papurau cyn cyfarfodydd, sy'n helpu i fireinio eu cynnwys a datblygu cwestiynau perthnasol cyn cyfarfodydd. Mae'r papurau hefyd yn cynnwys adroddiadau eglurhaol gyda phwyntiau allweddol i'w hystyried. Mae’r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd wedi rhoi sicrwydd ansawdd ar gyfer y papurau gyda disgwyliad bod gan bob adroddiad ddiben clir. Fodd bynnag, efallai na fydd yr arfer hwn yn gynaliadwy neu'n gymesur os bydd strwythurau ac agendâu pwyllgorau yn newid yn y dyfodol. Clywsom sut mae aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau wedi gweld gwelliant parhaus o ran papurau. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- ychwanegu cost a gwybodaeth ariannol mewn adroddiadau lle bo hynny'n berthnasol;
- ehangu ei ddefnydd o ddadansoddeg data i gyfoethogi gwybodaeth mewn papurau;
- adolygu amlder rhai papurau, fel y penderfyniad diweddar i symud o adrodd ar berfformiad bob chwarter i bob dau fis sy’n adlewyrchu gofynion sefydliadol.

## Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaethau a staff

32 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i glywed gan gleifion/defnyddwyr gwasanaethau a staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r Bwrdd gan ddefnyddio ystod o ddulliau addas i glywed gan amrywiaeth o gleifion/defnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd a staff.

33 Canfuom fod **y Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i glywed gan fyfyrwyr a staff mewn amrywiaeth o ffyrdd ond byddai mwy o straeon myfyrwyr a**

**hyfforddeion yn y Bwrdd a phwyllgorau yn ychwanegu dyfnder at ddealltwriaeth y Bwrdd o'u profiad**.

34 Mae AaGIC yn defnyddio ystod o fecanweithiau i glywed gan amrywiaeth o staff a myfyrwyr. Mae arolwg cenedlaethol staff y GIG yn nodi cyfradd ymateb uchel o tua 86.6% yn AaGIC (o'i gymharu â thua 21.8% mewn byrddau iechyd). Mae ymdrech hefyd i roi mwy o sylw i staff gweithredol yn y Bwrdd i gyflwyno agweddau ar eu gwaith. Mae gan AaGIC hefyd fforymau staff misol ar waith lle gall y Tîm Gweithredol siarad â staff. Mae'r Cyfarwyddwr Strategaeth, Addysg a Thrawsnewid a benodwyd yn ddiweddar hefyd yn myfyrio ar sut y gellir parhau i adolygu a gwella’r gwaith o ddal llais myfyrwyr a hyfforddeion.

35 Nododd ein hadroddiad blaenorol yn 2022 nad oedd AaGIC yn cyrraedd ei darged o 85% ar gyfer Arfarnu Perfformiad ac Adolygiad Datblygu (PADR) ac y dylai adrodd am gamau i wella hyn. Mae adroddiadau perfformiad ym mis Tachwedd 2024 yn dangos gwelliant sylweddol gyda chyfradd gydymffurfio o 86% i fyny o 70% yn 2022. Mae AaGIC hefyd wedi cynnal adolygiadau perfformiad ychwanegol, er nad yw'r data hwn wedi'i gynnwys yn y system eto (**Gweler Atodiad 2 2022 Argymhelliad 4**).

36 Mae'r adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a myfyrwyr yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Grwpiau Cyfeirio Rhanddeiliaid, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a gynhelir yn annibynnol, fforymau myfyrwyr ac arolwg y Cyngor Meddygol Cyffredinol, y mae ei ganlyniadau yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (PACA). Yn ogystal, mae AaGIC wedi addasu ei gontractau gyda sefydliadau i alluogi AaGIC i ddeall profiad myfyrwyr yn well.

37 Yn hanesyddol, mae'r Bwrdd wedi elwa ar straeon myfyrwyr/hyfforddeion i helpu aelodau i ddeall profiad y dysgwr. Fodd bynnag, nid oes yr un wedi bod i'r Bwrdd hyd yn hyn yn y flwyddyn galendr hon. Felly, dylai'r Bwrdd ystyried a all hyn fod yn eitem reolaidd ar ei agenda i ddod â gwell dealltwriaeth o brofiadau myfyriwr/hyfforddai o ddydd i ddydd (**gweler Argymhelliad 1 – 2024**).

## Cydlyniant y Bwrdd ac ymrwymiad i welliant parhaus

38 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda chnewyllyn o uwch arweinwyr sydd â'r gallu, y sgiliau a'r profiad priodol;
- bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd a defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus;
- bod rhaglen berthnasol o ddatblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd ar waith.

39 Canfuom fod Bwrdd cydlynol a chefnogol yn parhau, ac mae trosiant Aelodau Annibynnol wedi cael ei reoli'n dda.

40 Mae AaGIC wedi rheoli newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn effeithiol dros y 12 mis diwethaf. Mae wedi penodi Cyfarwyddwr Addysg, Strategaeth a Thrawsnewid newydd, sicrhau trefniadau cyflenwi Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro oherwydd secondiad, ac wedi penodi cadeiryddion newydd ar gyfer yr Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r PACA. Mae AaGIC wedi rheoli'r newid hwn yn dda ac yn parhau i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel ar lefel Bwrdd. Mae adborth gan staff ac Aelodau Annibynnol ynghylch y broses gynefino wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y sgôr sicrwydd sylweddol a roddwyd gan Archwilio Mewnol ar gyfer yr adolygiad 'Rheoli Newid Aelodau Annibynnol' (**Gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 4**).

41 Mae AaGIC yn defnyddio briffiau bwrdd i friffio aelodau'r Bwrdd ar feysydd technegol penodol, er enghraifft cynllunio gweithlu genomeg. Mae hon yn ffordd effeithlon o uwchsgilio aelodau'r Bwrdd ar bynciau sy'n dod i'r amlwg y gellir eu hystyried wedyn yn fwy effeithiol mewn trafodaethau yn y dyfodol.

42 Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cynnal hunanasesiadau blynyddol cynhwysfawr, sydd hefyd yn cynnwys gwerthuso effeithiau gweithredoedd. Yna mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn defnyddio'r rhain i lywio trafodaeth ac ystyried gwelliant pellach. Yn ddefnyddiol, mae AaGIC yn datblygu ac yn cymhwyso cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r canfyddiadau yn yr hunanasesiadau gyda chamau, perchnogion a dyddiadau gweithredu. Mae'r newid sy'n deillio o'r hunanasesiadau yn cynnwys diweddariadau i lawlyfr pwyllgorau a chynllunio olyniaeth well ar gyfer PACA. Mae hyn yn dangos hunanfyfyrio tryloyw a bwriad i ysgogi gwelliant parhaus yn y flwyddyn i ddod.

43 Amlygodd Adroddiad Diweddaru Safon Cydraddoldeb Hili y Gweithlu 2024 bedwar maes effaith i AaGIC, ac un ohonynt oedd cyfradd isel o aelodau lleiafrifoedd ethnig ar y Bwrdd o'i gymharu â chyfansoddiad staff. Mae hyn wedi sbarduno cynnig i sefydlu rôl gynghori i unigolyn o gefndir ethnig lleiafrifol weithredu fel cynghorydd i'r Bwrdd. Nod hyn yw integreiddio safbwyntiau amrywiaeth o grwpiau o fewn y broses o wneud penderfyniadau a datblygu strategaethau.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

44 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

45 Canfuom fod **gan AaGIC ddull deinamig o reoli risg a threfniadau cadarn ar waith i oruchwylio perfformiad a thracio argymhellion archwiliad. Mae trefniadau wedi'u datblygu'n dda hefyd i sicrhau bod addysg a gomisiynir o'r ansawdd priodol**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol

46 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) sy'n gyfredol ac ar gael i'r cyhoedd ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol am y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd perchnogi, adolygu, diweddaru a defnyddio'r FfSB i oruchwylio, craffu, a mynd i'r afael â risgiau strategol.

47 Canfuom fod **y FfSB yn offeryn byw sy'n cael ei adolygu'n briodol gan y Bwrdd. Er bod gan y sefydliad afael corfforaethol da ar ei risg strategol, gallai'r cysylltiadau â nodau strategol a rôl 'pwyllgorau sicrhau' gael eu nodi'n fwy penodol yn FfSB**.

48 Adolygodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd (AAC) y FfSB a'r risgiau strategol ym mis Mehefin 2024. Dilynwyd hyn gan gymeradwyaeth y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024. Cafodd y Fframwaith Rheoli Risg Strategol, sy'n mapio'r risgiau i sicrwydd a rheolaethau, ei adolygu a'i gymeradwyo ddiwethaf gan yr AAC ym mis Ebrill 2024 (**gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 8**). Mae'r FfSB, sy'n cynnwys y Fframwaith Craidd a'r Fframwaith Rheoli Risg Strategol, yn canolbwyntio'n glir ar risgiau strategol a allai fygwth cyflawni blaenoriaethau'r sefydliad. Mae'n creu gwahaniaeth clir rhwng risgiau strategol a risgiau corfforaethol ac yn amlinellu'r fframwaith rheoli sy'n seiliedig ar fodel sicrwydd tair llinell.

49 Mae newidiadau i'r FfSB dros y 12 mis diwethaf yn dangos mwy o bwyslais ar y risgiau sy'n gysylltiedig ag AaGIC fel modd o wella GIG Cymru yn ehangach a hefyd ansawdd addysg (**Gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 7**). Mae'r Fframwaith Rheoli Risg Strategol yn amlinellu'n ddefnyddiol y perchennog risg, mathau o sicrwydd, ac unrhyw fylchau mewn sicrwydd. Mae hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu cytunedig gyda statws Coch, Melyn, Gwyrdd. Yn ogystal, er bod pob risg strategol wedi'i neilltuo i 'bwyllgor sicrhau', nid yw'n glir beth yw rôl y pwyllgor sicrhau mewn perthynas â'r risg a beth sy'n rhaid iddo wneud er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a rhoi sicrwydd ar ran y Bwrdd. (**Gweler Arddangosyn 1 – 2024 Argymhelliad 2**).

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau corfforaethol

50 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod fframwaith rheoli risg priodol a chyfredol ar waith, sy'n seiliedig ar bolisïau, gweithdrefnau a rolau a chyfrifoldebau clir;
- bod y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar effeithiolrwydd y system rheoli risg yn ogystal â risgiau corfforaethol.

51 Canfuom fod **gan AaGIC ddull da a deinamig o reoli risg corfforaethol**.

52 Mae gan AaGIC ddull da o reoli risg corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys Polisi Rheoli Risg clir a Chofrestr Rheoli Risg Gorfforaethol fyw, a gyflwynir i'r AAC bob chwarter ac i'r Bwrdd ddwywaith y flwyddyn. Diweddarwyd a chymeradwywyd y Polisi Rheoli Risg gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2024. Mae'r polisi yn offeryn byw, ac mae'r diweddariad diweddar yn cynnwys gwelliannau a chanllawiau ychwanegol wrth asesu effaith a thebygolrwydd risg, sy'n ddefnyddiol i staff. Mae prosesau uwchgyfeirio hefyd wedi'u nodi yn y polisi. Mae AaGIC yn awyddus i ddangos arweinyddiaeth dosturiol, ac mae hyn yn amlwg o fewn y Polisi Rheoli Risg. Mae'r polisi yn atgoffa'r darllenydd nad yw methu rheoli risg yn adlewyrchiad o'r diffyg gallu, ond efallai y bydd angen rheoli'r risg ar lefel uwch.

53 Mae AaGIC yn gwneud defnydd da o fecanweithiau sicrwydd annibynnol i roi mewnwelediad i effeithiau risg posibl. Er enghraifft, gallai newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r rheolau ynghylch derbyn bwrsariaethau a grantiau gael effaith o bosibl ar nifer y lleoedd addysg a gomisiynir y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi AaGIC i'w darparu. Er mwyn rhagweld rhai agweddau ar y risg hon, gofynnodd AaGIC i Archwilio Mewnol wneud darn o waith mewn perthynas â'r mater a fydd yn cael ei gyflawni yn 2025.

54 Nid yw'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn statig, ac mae risgiau'n cael eu hychwanegu a'u dileu yn unol â hynny. Enghraifft o hyn yw cynnwys y risgiau ariannol sy'n wynebu darparwyr addysg uwch ac unrhyw effaith bosibl ar ddarparu rhaglenni addysg iechyd yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn trafod ac yn defnyddio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn weithredol i nodi camau i liniaru risgiau. Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd, mae'r Cadeirydd yn gofyn i Aelodau'r Bwrdd fyfyrio ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol i benderfynu yn sgil unrhyw drafodaethau sydd wedi digwydd a oes angen gwneud newidiadau iddo. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol o ystyried yn rheolaidd sut mae'r cyfarfodydd yn effeithio ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

55 Er mwyn cryfhau'r trefniadau ymhellach, byddai risgiau corfforaethol yn elwa ar gael teitlau risg cyson i'w gwneud yn haws i'r darllenydd nodi'r risg (**Gweler Arddangosyn 1 – 2024 Argymhelliad 3**). Maes arall y gellid ei ddatblygu ymhellach yw'r arlliwiau o fewn graddfeydd Coch, Melyn, Gwyrdd. Er enghraifft, mae risg seiber yn goch a bydd yn debygol o barhau'n goch oherwydd yr effaith risg gynhenid. Fodd bynnag, gallai egluro effaith y risg ar AaGIC a'r rheolaethau y gall eu rhoi ar waith i liniaru'r risg i AaGIC fod yn fuddiol.

## Dull corfforaethol o oruchwylio perfformiad sefydliadol

56 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol ar waith, wedi'i danategu gan rolau a chyfrifoldebau clir;

- bod y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar berfformiad sefydliadol.

57 Canfuom fod **gan AaGIC drefniadau da ar gyfer trosolwg o berfformiad sefydliadol, gydag aelodau'r Bwrdd yn darparu trosolwg, craffu a herio effeithiol**.

58 Cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith Perfformiad Integredig ym mis Mawrth 2023, sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau gwahanol rannau o'r sefydliad mewn perthynas â pherfformiad gan gynnwys cyfnodau uwchgyfeirio ac atebolrwydd. Cymeradwyodd y Bwrdd ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023-24 ym mis Gorffennaf 2024, yn dilyn gwaith craffu AAC, cyn i AaGIC ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae cynnwys yr adroddiad yn hygyrch gyda ffeithiau allweddol defnyddiol a chymysgedd o naratif a ffeithluniau. Mae'n defnyddio gwybodaeth tueddiadau i ddangos effaith AaGIC ar feysydd fel comisiynu nyrsys ers ei sefydlu. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd ym **mharagraff 37**, byddai rhai astudiaethau achos gan fyfyrwyr/hyfforddeion a staff yn gwella'r adroddiad ymhellach.

59 Nid yw llawer o fetrigau perfformiad cenedlaethol yn berthnasol i AaGIC gan nad yw'n ddarparwr gofal iechyd. Yn hytrach, mae AaGIC yn adrodd yn briodol ddangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) penodol perthnasol ac yn olrhain cynnydd dros amser yn ei ddangosfwrdd perfformiad a'i adroddiadau perfformiad integredig i'r Bwrdd. Mae'r dangosfwrdd DPAau yn ymdrin yn briodol ag agweddau craidd ar fusnes AaGIC. Mae'r rhain yn ymwneud â hyfforddiant ac addysg a swyddogaethau corfforaethol gan gynnwys presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, cydymffurfio â dyletswyddau deddfwriaethol, a pherfformiad ariannol a'r gweithlu. Mae yna hefyd adroddiadau naratif lefel uchel ond clir ar agweddau ar gyllid, digidol, datgarboneiddio, a gweithlu.

60 Mae'r Bwrdd yn derbyn yr Adroddiad Perfformiad Integredig bob chwarter (yn fuan bydd yn ddeufisol). Mae'r adroddiad perfformiad yn datblygu'n gyson, ac mae swyddogion gweithredol newydd wedi awgrymu gwelliannau diweddar iddo. Clywsom sut mae'r defnydd cynyddol o ddata a'r defnydd o Power BI wedi cael effaith sylweddol ar sut mae perfformiad yn cael ei adrodd a'i ddefnyddio o fewn y sefydliad. Mae Aelodau Annibynnol yn darparu goruchwyliaeth a chraffu ar berfformiad o ansawdd uchel ac yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau sy'n briodol o heriol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn ymdrin ag adroddiadau sy'n amlygu materion allweddol yn rhwydd, a defnyddir graddfeydd a naratifau Coch, Melyn, Gwyrdd i ddiweddaru'r darllenydd ar nodau a chynnydd Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y sefydliad yn eu herbyn.

61 Mae cyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Integredig wedi gwella ar ôl newidiadau sylweddol i strwythur a ffurf yr adroddiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r naratif yn rhoi gwell gwerthusiad o effaith camau gweithredu ar gyfer gwella na fersiynau o'r adroddiad a adolygwyd gennym y llynedd. Bydd angen i AaGIC barhau â'i ddull o ddeall effaith ei waith yn well. (**Gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 6).**

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

62 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu ansawdd;
- bod strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- bod y Bwrdd a phwyllgor perthnasol yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

63 Canfuom fod **dull clir ac aeddfed o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ansawdd addysg a gomisiynwyd ac mae AaGIC yn parhau i ddatblygu ei rôl mewn perthynas â'r Ddyletswydd Ansawdd**.

64 Mae cylch gwaith ansawdd AaGIC yn canolbwyntio'n bennaf ac yn briodol ar ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y mae'n ei gomisiynu. Mae AaGIC wedi bod yn myfyrio ar effaith y Ddyletswydd Ansawdd ers ei chyflwyno yn 2023. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu Cynllun Ansawdd ar gyfer 2024-25 a recriwtio Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd. Mae AaGIC hefyd wedi ymgorffori gofynion y Ddyletswydd Gonestrwydd yn y Polisi Ymdrin â Chwynion (**gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 12**). Mae AaGIC wedi ymgorffori agweddau ar y Cynllun Ansawdd yn y CTCI ar gyfer 2024-27. Mae'r Cynllun Ansawdd yn amlinellu ymrwymiadau ansawdd y sefydliad, gan gynnwys sut y bydd ansawdd yn cael ei alluogi a'i gyflawni'n fewnol. Mae AaGIC yn ymgorffori safonau a diwylliant ansawdd ar draws y sefydliad, ond mae ei Gynllun Ansawdd yn gwthio'r sefydliad gam ymhellach trwy sicrhau bod y safonau'n cael eu hystyried wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau (**gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 11**). Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod heriau ehangach o fewn amgylchedd ehangach y GIG. Y cam nesaf i AaGIC yw creu mecanwaith sy'n defnyddio'r wybodaeth ehangach honno i ddatblygu camau gweithredu perthnasol o fewn y sefydliad.

65 Mae goruchwyliaeth ansawdd Bwrdd a phwyllgor effeithiol. Mae papurau sicrhau ansawdd wedi'u diweddaru yn dangos ffocws gwell ac ehangach ar ansawdd comisiynu addysg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol (**gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 10**). Mae adroddiadau ansawdd PACA yn canolbwyntio ar draws arbenigeddau penodol (meddygol/deintyddol/fferylliaeth/nyrsio a gweithwyr iechyd proffesiynol). Mae adroddiadau'n cynnwys adrannau ar reoli ansawdd a llywodraethu ym mhob gwasanaeth, gan gynnwys adrannau gwella ansawdd lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys ffigurau recriwtio a chadw ac adborth o amrywiol arolygon hyfforddeion gyda chamau gweithredu cysylltiedig.

66 Mae adroddiadau i'r PACA hefyd yn cynnwys enghreifftiau o ymweliadau wedi'u targedu i amgylcheddau dysgu amrywiol gan AaGIC ac yn cynnwys cynlluniau gweithredu sy'n deillio o hynny. Mae swyddogion AaGIC hefyd yn diweddaru'r

pwyllgor ynghylch camau y mae wedi'u cymryd i wella ac ysgogi ansawdd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Hwyluswyr Addysg Practis Gofal Sylfaenol, sydd wedi arwain at ymgysylltu pwrpasol â darparwyr Ymarfer Cyffredinol ac wedi arwain at fwy o gapasiti lleoli. Cyflwynir Adroddiadau Materion Allweddol i'r Bwrdd yn amlinellu gweithgaredd pwyllgorau AAC a PACA er mwyn cael sicrwydd.

### Dull corfforaethol o dracio argymhellion

67 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar systemau ar gyfer tracio cynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer tracio ymatebion i archwiliad ac argymhellion a chanfyddiadau adolygiadau eraill mewn modd amserol.

68 Canfuom fod systemau priodol yn dal ar waith ar gyfer tracio argymhellion archwiliad.

69 Mae AaGIC yn parhau i fod â threfniadau effeithiol ar gyfer tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliad. Mae adroddiad y Traciwr Archwilio yn cael ei gyflwyno ym mhob cyfarfod AAC. Mae gan y pwyllgor rôl glir wrth gymeradwyo dileu (neu wrthod cymeradwyo dileu) yr argymhellion hynny y mae'r rheolwyr yn eu hystyried yn gyflawn. Mae hyn yn darparu haen ychwanegol bwysig o drosolwg a sicrwydd ansawdd. Fodd bynnag, efallai y bydd AaGIC eisiau adlewyrchu rôl y pwyllgor yn well ar y papur clawr cysylltiedig ar gyfer yr eitem hon, gan ei fod yn nodi ar hyn o bryd fod y Traciwr Archwilio yn cael ei gyflwyno ar gyfer 'gwybodaeth' yn hytrach na 'chymeradwyaeth' neu 'sicrwydd'.

70 Mae AaGIC hefyd yn annog staff i ymgysylltu ag archwilwyr pan gaiff argymhellion eu drafftio, er mwyn sicrhau bod staff yn glir ynghylch yr argymhellion sy'n cael eu gwneud ac yn gallu ymateb gyda chamau gweithredu ystyrlon i fynd i'r afael â'r mater. Y broses ddiwygiedig ar gyfer adroddiadau archwilio mewnol yw bod argymhellion yn cael eu cytuno mewn ymgynghoriad â'r tîm archwilio sydd wedyn yn llenwi'r adroddiad yn iawn cyn iddo gael ei gwblhau. Mae hyn bellach ar waith ond nid ar waith pryd y gwnaed y gwaith maes gwreiddiol.

## Dull corfforaethol o gynllunio

71 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawniad.

72 Canfuom fod dull AaGIC o ddatblygu strategaeth a chynllunio yn gynhwysfawr a chynhwysol. Fodd bynnag, mae angen mwy o ffocws i ganfod a yw cynlluniau'n cyflawni eu canlyniadau arfaethedig.

## Dull corfforaethol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau

73 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol gan gynnwys amcanion llesiant. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol;:

- gweledigaeth glir a gymeradwywyd gan y Bwrdd, amcanion strategol priodol (ac amcanion llesiant) a strategaeth hirdymor ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'u gwreiddio mewn iechyd poblogaeth, ac wedi'u llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a chynhyrchu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), a chynlluniau corfforaethol eraill;
- mae'r Bwrdd yn craffu ar y CTCI a chynlluniau corfforaethol eraill yn briodol cyn eu cymeradwyo.

74 Canfuom fod gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o ddatblygu cynlluniau strategol a chorfforaethol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

75 Cymeradwyodd y Bwrdd CTCI AaGIC ar gyfer 2024-27 ym mis Mawrth 2024. Mae gweledigaeth, diben ac amcanion y cynllun yn glir, ac mae'r amcanion yn canolbwyntio ar anghenion iechyd a gofal yn y dyfodol, gan gynnwys nod strategol 'Adeiladu Gweithlu'r Dyfodol'. Er nad yw AaGIC yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 tan fis Mehefin 2024, mae'r sefydliad wedi datblygu cynlluniau sydd 'yn ysbryd' y ddeddf. Mae'r CTCI ar gyfer 2024-27 hefyd yn cynnwys enghreifftiau o sut mae'n cyd-fynd â phob un o'r pum ffordd o weithio[1] sy'n ffurfio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn y Ddeddf. Wrth symud ymlaen, bydd angen i AaGIC ddangos a rhoi cyhoeddusrwydd i sut mae'n parhau i ddefnyddio a chofnodi'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau a chynllunio. Bydd angen i hyn gynnwys ystyriaeth barhaus o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth ddiweddaru amcanion strategol/adfywio amcanion llesiant (**gweler Arddangosyn 3 – 2023 Argymhelliad 5**).

76 Mae AaGIC yn ymgymryd â sganio'r gorwel ar sail defnydd cynyddol o ddata, i ddatblygu darlun o anghenion y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried newid hinsawdd, demograffeg gymdeithasol, a thechnoleg. Mae hefyd yn cynnwys y risgiau a allai atal cyflawni ei nodau strategol. Mae'r CTCI ar gyfer 2024-27 yn cynnwys amcanion ar gyfer y tair blynedd nesaf, ond mae AaGIC yn cydnabod bod angen dull radical ar gyfer cynaliadwyedd gweithlu tymor hwy, na ellir ei gyflawni o fewn y cylch cynllunio tair blynedd presennol. Mae trafodaethau gydag AaGIC yn dangos awydd i feddwl yn y tymor hir, ond cydbwyso hynny gyda gofynion tymor byrrach. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod yr amgylchedd allanol yn wynebu heriau cynyddol. Er enghraifft, gallu prifysgolion a darparwyr addysg ehangach i

[1] Y Pum Ffordd o Weithio yw: Hirdymor, Cydweithio, Integreiddio, Atal a Chynnwys

wneud cyrsiau'n hyfyw yn ariannol, gallu Cyrff Iechyd i gefnogi lleoedd hyfforddi wrth iddynt wynebu pwysau gwasanaeth a chanlyniadau cymeradwyaeth hwyr gan Lywodraeth Cymru o'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant (ETP).

77 Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Addysg a Hyfforddiant 2025-26 ym mis Gorffennaf 2024. Mae'r cynllun yn amlinellu'r niferoedd comisiynu a argymhellir ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ochr yn ochr â'r ymrwymiadau presennol. Roedd datblygu'r cynllun yn cynnwys cydweithio helaeth gyda byrddau iechyd, grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid, a'r Bwrdd. Datblygodd AaGIC ei ETP ar gyfer 2025-26 yn dilyn sawl gweithdy i ystyried gwahanol opsiynau comisiynu. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddi'r gweithlu a modelu galw a dadansoddiad o dueddiadau a newidiadau arfaethedig o fewn pob sefydliad perthnasol.

78 Craffodd y Bwrdd a'i bwyllgorau yn briodol ar yr CTCI ar gyfer 2024-27 a'r ETP ar gyfer 2025-26, mewn cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol. Ystyriodd y Bwrdd ystod o opsiynau wedi'u costio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Er enghraifft, roedd yr argymhellion drafft ar gyfer yr ETP ar gyfer 2025-26 yn cynnwys sawl opsiwn ar lefelau comisiynu ('Gwneud yr Isafswm', 'Cadw Niferoedd', ac 'Argymhellir'). Mae'r ETP ar gyfer 2025-26 yn cynnwys data tueddiadau ar gyfer rhifau a gomisiynwyd ar gyfer y tair blynedd flaenorol, sy'n adlewyrchu'r lleoedd a gomisiynwyd a argymhellir, a'r lleoedd a gomisiynwyd y gofynnwyd amdanynt wedi'u llywio gan CTCIau bwrdd iechyd. Mae hyn yn dangos parodrwydd i dderbyn risg cynyddol i gomisiynu mwy o leoliadau hyfforddi i helpu i ddiwallu anghenion gweithlu'r GIG yn y dyfodol er nad yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau

79 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar weithredu a chyflwyno cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y CTCI, sy'n cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir CAMPUS[2], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd;
- bod y Bwrdd yn monitro gweithrediad a chyflwyniad cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y CTCI.

80 Canfuom fod gan AaGIC drefniadau effeithiol ar waith yn gyffredinol ar gyfer monitro a goruchwylio datblygiad ei strategaethau a'i gynlluniau, ond gallai mesurau elwa ar gael eu mireinio a bod yn gliriach ynghylch yr effaith a fwriadwyd.

81 Mae gan AaGIC gerrig milltir chwarterol clir ar gyfer camau gweithredu sy'n cysylltu â nodau strategol y sefydliad. Mae AaGIC yn datblygu manteision a mesurau llwyddiant ar gyfer pob amcan strategol. Mae aelodau'r Bwrdd wedi trafod y

[2] Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol

cydbwysedd rhwng camau gweithredu strategol a gweithredol ac yn cydnabod bod hwn yn faes y gellir ei ddatblygu ymhellach er mwyn gwella sicrwydd y Bwrdd ar gyflawni canlyniadau. Er bod y camau hyn yn cynnwys elfennau CAMPUS, byddent yn elwa trwy gryfhau sut y disgrifir effaith a buddion a fwriedir **(gweler Argymhelliad 1 – 2024).**

82 Mae Bwrdd a phwyllgorau AaGIC yn goruchwylio ac yn craffu ar ddatblygu, gweithredu a chyflwyno cynlluniau a strategaethau corfforaethol. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymwneud â datblygu a monitro'r cynlluniau corfforaethol. Mae hyn yn amlwg wrth ymgysylltu ar bob cam o'r cylch cynllun corfforaethol a'r lefel eang o her a ddarperir ar wybodaeth strategol a gweithredol lle bo angen.

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

83 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

84 Canfuom fod **dull da o reoli a sicrwydd ariannol yn parhau**.

## Amcanion ariannol

85 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2023-24;
- bod y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2024-25.

86 Canfuom fod **AaGIC wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb ar gyfer 2023-24 a'i fod yn debygol o gyflawni ei amcanion yn 2024-25, os gall reoli ei risgiau ariannol yn llwyddiannus**.

87 Cyflawnodd y sefydliad ei amcanion ariannol statudol yn 2023-24. Daeth AaGIC â blwyddyn ariannol 2023-24 i ben gyda thanwariant o £1.27 miliwn. Yn ystod 2023-24, cyflawnodd AaGIC ei ofynion polisi taliadau yn y sector cyhoeddus i gyflawni perfformiad gwell o 95.7% o gredydwyr nad ydynt yn y GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod o gyflawni yn erbyn targed Llywodraeth Cymru o 95%.

88 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, adroddodd AaGIC i ddechrau gorwariant diwedd blwyddyn o £0.549 miliwn, gan ei fod yn profi mwy o risgiau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- gorymrwymo cyllidebau hyfforddi meddygon teulu a hyfforddiant meddygon sylfaenol;
- costau teithio myfyrwyr, cynhaliaeth ac adleoli uwch na'r disgwyl;
- gwaith ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdano sy'n cynnwys rhaglen datblygu cydymaith nyrsio cofrestredig Band 4;

- newid polisi Llywodraeth Cymru ar fwrsariaeth y GIG, a allai arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan, gyda goblygiadau ariannol cysylltiedig;
- tanwariant comisiynu y rhagwelir y bydd yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol.

89 Fodd bynnag, mae AaGIC yn rheoli'r risgiau hyn yn rhagweithiol ac, o fis 7 2024-25, rhagwelodd sefyllfa o fantoli’r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Serch hynny, mae'r risgiau ariannol yn fwy nag mewn blynyddoedd blaenorol, ac mae effaith y rhain ar y sefydliad yn parhau i fod yn ansicr. Mae AaGIC yn debygol o fodloni gofynion polisi taliadau'r sector cyhoeddus a'i derfyn adnoddau cyfalaf yn 2024-25.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

90 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol::

- bod trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn ar waith;
- bod y Bwrdd yn craffu ar gynlluniau ariannol yn briodol cyn iddynt gael eu cymeradwyo;
- arbedion cynaliadwy, realistig, ac wedi'u costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid gwasanaethau;
- bod y Bwrdd yn craffu ar arbedion a chynlluniau gwella costau yn briodol cyn eu cymeradwyo.

91 Canfuom fod **gan y sefydliad ddull da o gynllunio ariannol, gyda ffocws gwell ar arbedion.**

92 Mae CTCI AaGIC ar gyfer 2024-27 yn nodi'n glir Gynllun Ariannol y sefydliad. Rhagwelir y Cynllun Ariannol dros gyfnod o bum mlynedd ac mae cysylltiad mawr ag ymrwymiadau ariannol sy'n ymwneud â'r ETP a chontractau addysg cysylltiedig. Mae AaGIC yn dangos lefel dda barhaus o oruchwyliaeth o'r trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol, gyda chraffu clir ar lefelau'r Bwrdd a phwyllgor. Mae rhannu a thrafod agored ynghylch y risg ariannol i’r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ariannol, sy'n gysylltiedig yn bennaf ag uchelgais a chyflawniad comisiynu addysg.

93 Mae'r Bwrdd yn trafod ac yn rhoi her gynyddol i barodrwydd i dderbyn risg/goddefgarwch risg ariannol. Nodwyd hyn yn arbennig ar drafodaethau ar y posibilrwydd o or-gomisiynu lleoliadau addysg a hyfforddiant a ariennir ar y sail y gallai’r nifer yn gadael cyn gorffen cyrsiau arwain at danwariant yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Er y gallai hyn arwain at lefelau uwch o hyfforddiant i helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu yng Nghymru, byddai hefyd yn cynyddu'r risg ariannol yn y sefydliad ac o bosibl yn lleihau lefelau arbedion cost y gall AaGIC eu cyflawni. Er enghraifft, canfu ein Hadolygiad o Drefniadau Gwella Costau 2024 fod gan AaGIC drefniadau cadarn ar gyfer nodi, cyflawni a monitro ei gyfleoedd i wella

costau. Fodd bynnag, mae cwmpas y sefydliad i sicrhau gwelliannau i gostau yn cael ei bennu'n bennaf gan nifer y lleoedd hyfforddi y mae angen iddo eu comisiynu, y graddau y mae lleoedd wedi'u llenwi, gadael cwrs cyn gorffen, yn ogystal â lefelau swyddi gwag mewnol.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

94 Gwnaethom ystyried a oes gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol::

- bod rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- bod y Bwrdd yn goruchwylio'n briodol y trefniadau a'r perfformiad sy'n ymwneud â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- bod trefniadau rheoli ariannol effeithiol ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall ysgogwyr costau a sut maent yn effeithio ar gyflawni amcanion strategol;
- cyflwynwyd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2023-24 ar amser, nid oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a chawsant farn archwilio ddiamod.

95 Canfuom fod **gan AaGIC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol**.

96 Mae AaGIC yn parhau i adolygu'n rheolaidd ac yn ddigonol ei Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'i Gynllun Dirprwyo ar adegau priodol. Mae trefniadau dirprwyo cyllidebol priodol ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r AAC yn parhau i ddarparu trosolwg effeithiol a phriodol o sicrwydd rheolaethau ariannol. Er mwyn helpu i reoli a darparu parhad sy'n deillio o newid cadeirydd pwyllgor, dychwelodd y cadeirydd sy'n gadael i fynychu cyfarfod AAC mis Mehefin ar gyfer yr adroddiad blynyddol ar y cyfrifon. Cyflwynodd AaGIC ei ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer archwiliad allanol ar amser. Nid oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod. Mae'r pwyllgor i bob pwrpas yn adolygu cyfrifon ariannol AaGIC, ac adroddiadau archwilio cysylltiedig ac adroddiadau blynyddol cysylltiedig.

97 Mae'r pwyllgor yn derbyn, trafod, a lle bo angen, yn holi swyddogion ar ddiweddariadau ar golledion a thaliadau arbennig, gwrth-dwyll, a pholisi talu'r sector cyhoeddus. Y llynedd, gwnaethom argymhelliad (**Argymhelliad 13, 2023**) i'r Gwasanaethau Gwrth-dwyll i adolygu ei bolisi er mwyn galluogi dull mwy pwrpasol ac wedi’i deilwra o ystyried risgiau twyll lleol. Er nad yw'r gwasanaeth wedi diweddaru ei bolisi, mae wedi mynd i'r afael â'r mater a nodwyd gennym trwy fabwysiadu dull asesu risg gwrth-dwyll gwell sy'n canolbwyntio ar risgiau AaGIC lleol.

98 Yn gyffredinol, ceir adroddiadau da a thrafodaeth o weithredoedd tendr sengl i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Fodd bynnag, mae cyfle i gryfhau dadansoddiad ymhellach i ddangos cyfanswm gwerthoedd gweithredoedd tendr sengl,

tueddiadau a chostau, a/neu gymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Mae'r lefelau cyffredinol o Weithredoedd Dyfynbris Sengl a Gweithredoedd Tendr Sengl yn weddol isel o'u cymharu â chyrff eraill y GIG yng Nghymru, er bod y gwerthoedd ar gyfer rhai Gweithredoedd Tendr Sengl yn weddol uchel, yn gysylltiedig yn rhannol â gwerthoedd contract addysg uchel.

## Trosolwg y bwrdd o berfformiad ariannol

99 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol yn briodol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol::

- bod y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar berfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol, risgiau, a gweithredoedd lliniaru allweddol:
- bod y Bwrdd yn craffu ar asesiadau parhaus sefyllfa ariannol y sefydliad yn briodol.

100 Canfuom fod **gan y Bwrdd drefniadau priodol ac effeithiol i oruchwylio perfformiad ariannol.**

101 Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob deufis ac yn derbyn adroddiad ariannol fel mater o drefn. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n ddigonol ar y sefyllfa ariannol gyffredinol, ei sefyllfa debygol ddisgwyliedig ar ddiwedd blwyddyn, a'r amgylchedd ariannol a'r risgiau cysylltiedig y mae'n eu hwynebu. Mae'r Bwrdd yn edrych yn briodol ar achosion o orwariant ariannol a'r risgiau ariannol a allai effeithio ar sefyllfa ariannol ar ddiwedd blwyddyn. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod y llywodraethu ynghylch cynllunio a rheoli ariannol yn gadarn a chynhelir sesiynau llywodraethu ychwanegol i drafod materion neu bryderon ariannol penodol pan fo angen. Mae aelodau'r Bwrdd wedi dweud wrthym eu bod yn fodlon ar ansawdd yr adrodd a lefel y drafodaeth ar y sefyllfa ariannol, cynlluniau ariannol, sy'n gysylltiedig â'r ETP ar gyfer 2025-26. Mae'r Bwrdd yn parhau i graffu ar sefyllfa ariannol y sefydliad yn briodol gyda ffocws cynyddol ar ganlyniadau unrhyw danwariant sy'n gysylltiedig â lleoedd heb eu llenwi.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;<br>• Y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg. |
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu ystod eang o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylch Gorchwyl y Bwrdd a Phwyllgor, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau o Ddiddordeb, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI;<br>• dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid sefydliadol;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol;<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

| Elfen o ddull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Y Prif Swyddog Gweithredol;<br>• Cadeirydd y Bwrdd;<br>• Is-gadeirydd y Bwrdd;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd;<br>• Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cynllunio Cyllid a Pherfformiad;<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd;<br>• Cyfarwyddwr Strategaeth, Addysg a Thrawsnewid. |

# Atodiad 2

## Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

Mae **Arddangosyn 3** isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan AaGIC wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

| Argymhelliad | Diweddariad cynnydd |
|---|---|
| **Argymhelliad 1 2022**<br>Canfuom nad yw elfennau o wefan AaGIC yn cael eu diweddaru mewn modd amserol. Mae hyn yn ymwneud â chofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau, cofnodion o gyfarfodydd pwyllgorau, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a datganiadau o fuddiant y Bwrdd. Er mwyn gwella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ymhellach, dylai AaGIC sicrhau'r canlynol:<br>a) cyhoeddir cofnodion Bwrdd a phwyllgorau a/neu gofnodion cyfarfodydd heb eu cadarnhau ar wefan AaGIC o fewn 14 diwrnod o gynnal cyfarfod;<br>b) bod y fersiwn ddiweddaraf o ddogfennau llywodraethu allweddol sy'n sail i drefniadau'r sefydliad, megis Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a datganiadau buddiannau'r Bwrdd, ar gael i'r cyhoedd ar y wefan. | **1a – Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 16<br><br>**1b – Wedi'i gwblhau** – gweler paragraffau 21 a 22 |
| **Argymhelliad 4 2022**<br>Canfuom nad yw AaGIC yn cyrraedd ei darged ar gyfer cydymffurfio â PADR. Ar ddiwedd 2021-22, y cydymffurfiad oedd 70% o'i gymharu â tharged o 85%. Dylai AaGIC adrodd am y camau penodol y mae'n eu cymryd i wella'r targed hwn yn ei adroddiad perfformiad integredig, gyda'r bwriad o gyflawni 85% erbyn mis Mawrth 2023. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 35 |

| Argymhelliad | Diweddariad cynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 1 2023**<br>Cyflwyno proses adolygu i nodi polisïau sy'n dod i ben fel mater o drefn. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 22 |
| **Argymhelliad 2 2023**<br>Adolygu a chymeradwyo diweddariadau i bolisïau y nodwyd eu bod angen eu hadolygu. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 22 |
| **Argymhelliad 3 2023**<br>Darparu adroddiadau diweddariad polisi bob chwe mis i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i sicrhau bod goruchwyliaeth briodol o gylch bywyd polisi. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 22 |
| **Argymhelliad 4 2023**<br>Paratoi cynllun i reoli trosglwyddo cyfrifoldebau mewn rolau aelodau annibynnol allweddol. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 40 |

| Argymhelliad | Diweddariad cynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 5 2023**<br>Dylai AaGIC adolygu amcanion strategol y sefydliad fel rhan o'r gwaith o bennu amcanion llesiant. | **Ar y gweill** – gweler paragraff 75 |
| **Argymhelliad 6 2023**<br>Dylai AaGIC adolygu'r broses o adrodd ar gynnydd ar gynlluniau allweddol i sicrhau eu bod yn gwerthuso yn y ffordd y maent yn asesu effaith cyflawni. | **Ar y gweill** – gweler paragraff 61 |
| **Argymhelliad 7 2023**<br>Ar ôl cwblhau argymhelliad 4, dylai AaGIC gynnal adolygiad o'r risgiau strategol a defnyddio'r cyfle hwn i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng canolbwyntio ar risg fewnol a chanolbwyntio ar risg allanol. Er enghraifft, drwy fynegi'r effaith ar y GIG ehangach yng Nghymru pe bai AaGIC wedi methu â darparu ei wasanaethau yn ddigonol. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 49 |
| **Argymhelliad 8 2023**<br>Ar ôl cwblhau argymhelliad 7, dylai AaGIC adolygu'r fframwaith rheoli risg strategol. Dylai hyn hefyd gynnwys nodi'r sicrwydd penodol sydd ei angen, pa mor aml y mae ei angen a mabwysiadu sgôr coch, melyn, gwyrdd ar gyfer y risg. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 48 |
| **Argymhelliad 9 2023**<br>Dylai AaGIC roi gwybod yn ffurfiol am y risgiau sy'n rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd i'r pwyllgor hwnnw. | **Wedi'i ddisodli gan Argymhelliad 2 2024** |

| Argymhelliad | Diweddariad cynnydd |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 10 2023**<br>Dylai AaGIC gryfhau adroddiadau sicrhau ansawdd ar gyfer meysydd deintyddol, fferylliaeth ac optometreg a gyflwynir i'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd i sicrhau eu bod mor glir ac wedi'u strwythuro cystal â fersiynau Gweithwyr Proffesiynol Meddygol, Nyrsio ac Iechyd cyfatebol. | **Cwblhau** – gweler paragraff 65 |
| **Argymhelliad 11 2023**<br>Adolygu a chymeradwyo'r fframwaith rheoli ansawdd i sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 64 |
| **Argymhelliad 12 2023**<br>Paratoi dogfen broses i sicrhau, pe bai'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei sbarduno, fod gan y sefydliad broses glir a chytunedig i'w dilyn (blaenoriaeth uchel). | **Wedi'i gwblhau** – gweler paragraff 64 |
| **Argymhelliad 13 2023**<br>Dylai AaGIC adolygu'r Polisi Gwrth-dwyll i sicrhau ei fod yn canolbwyntio'n benodol ar AaGIC a risgiau lleol. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Er nad yw Gwasanaethau Gwrth-dwyll wedi diweddaru eu polisi, maent wedi mynd i'r afael â'r mater sylfaenol trwy deilwra eu dull asesu risg fel ei fod yn canolbwyntio'n benodol ar risgiau sy'n gysylltiedig ag AaGIC. Gweler paragraff 97. |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb Addysg a Gwella Iechyd Cymru i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai AaGIC geisio cynnwys eitem agenda reolaidd yn ei gyfarfodydd bwrdd ar 'straeon' myfyrwyr/hyfforddeion i helpu aelodau i ddeall profiad y dysgwr. | Byddwn yn diweddaru ein Blaenraglen Waith ac agenda'r Bwrdd i gynnwys 'stori' gan fyfyrwyr neu hyfforddeion fel eitem reolaidd ar yr agenda i helpu aelodau i ddeall profiad y dysgwr. | 28 Chwefror 2025 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A2 | Er y dyrennir risgiau strategol i bwyllgorau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, dylai AaGIC egluro rôl y 'pwyllgor sicrwydd' i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau. | Bydd eglurhad o rôl y 'pwyllgor sicrwydd' mewn perthynas â risg strategol yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad blynyddol o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. | 31 Mai 2025 | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A3 | Dylai AaGIC sicrhau bod gan risgiau corfforaethol deitlau risg clir a chyson sy'n caniatáu i'r darllenydd nodi'n syth risg sy'n cael ei chyflwyno iddo. | Bydd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael ei diweddaru i gynnwys teitlau byr er hwylustod cyfeirio. | 28 Chwefror 2025 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Dylai AaGIC nodi a mynegi'n glir yr effaith a'r manteision y bwriedir i'r camau gweithredu eu cael, yn ei gynlluniau. | Effaith a manteision camau gweithredu i'w nodi o fewn CTCI 2025-2028 a threfniadau adrodd perfformiad cysylltiedig. | 31 Mai 2025 | Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English